# papur priordy

**cydweithiwn, cydgerddwn, cydfolwn gan fyw**
**i roi i ti’r cyfan, ein Harglwydd a’n Duw.**

**John Gwilym Jones**
**Caneuon Ffydd – 627**

*Gweler yr erthygl, Sefydlu Gweinidog a Gofalaeth Newydd, y tu mewn*

**Rhifyn 377**
**PAPUR MAI 2024**

# Gweddi gan ein Gweinidog

# Ysgol Dyffryn Aman

Rwy'n 'sgrifennu'r geiriau hyn ddiwrnod wedi'r digwyddiad erchyll yn Ysgol Dyffryn Aman.

Mae clywed am ddigwyddiad o'r fath mewn unrhyw ysgol yn ein hysgwyd, ond pan ddaw'r fath drais mor agos â hyn atom, i'n Sir ni, i'n system addysg leol ac yn fwy na dim i'n teulu bach ni yma yn Y Priordy cawn ein hysgwyd i'r byw.

Da clywed bod Fiona yn gwella. Danfonwn ein cofion cynhesaf atat Fiona, a gweddïwn am adferiad iechyd llwyr i ti.

**Gweddïwn**



Ein Tad, diolchwn am ein plant,
ac am iddynt dderbyn y rhodd o addysg.

Diolchwn fod ein plant yn cael y fraint a'r hawl i ddatblygu eu meddyliau trwy addysg  ac i wneud hynny yn ddiogel.

Gweddïwn am ddiogelwch i'n plant
wrth iddynt fanteisio ar addysg dda.

Arglwydd, gwyddom nad dy ewyllys Di
yw bod trais o unrhyw fath yn digwydd mewn ysgolion
neu mewn unrhyw le arall.

Yr ydym yn cydnabod bod drygioni yn ein byd,
Ac yn cydnabod hefyd dy fod ti wedi ein galw i sefyll
yn erbyn pob drygioni drwy air a gweithred ac mewn gweddi.

Gweddïwn y bydd ein sefydliadau addysgol
yn gymunedau o heddwch.

I bob calon bryderus, rho dy dangnefedd.

I bob unigolyn nerfus, rho dy hyder.

I bob rhiant gofidus, rho ymddiriedaeth.

I bob aelod o staff, rho ddycnwch a dyfalbarhad.

Gwna ni yn bobl wyliadwrus, ac yn barod i wrando er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw arwydd o angen yn ein hysgolion.

Boed i'th oleuni di lewyrchu trwom ni.

Yn enw Iesu Grist, yr Athro mawr

**Amen**

## DARLLENIADUR

| Mis Mai | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Actau 10:44-48 |
| Wythnos 2 | Actau 1:15-17,21-26 |
| Wythnos 3 | Actau 2:1-21 |
| Wythnos 4 | Eseia 6:1-8 |

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**JOHN A CARYS GREEN**
**RHIAN EVANS**
**IRIS OWEN**
**a**
**GWYNN AC ANN BOWYER**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**DALIER SYLW**
**SUL Y MAER**
**Gwasanaeth Dinesig – Y Priordy**
**Bore Sul – 9 Mehefin 2024 – 10 y bore**

**CWRDD CHWARTER**
**MORIAH BLAEN-WAUN**
**SA34 OJE)**



**Dydd Iau 9 Mai 2024**

Y Gynhadledd am 10.30 a Chyfarfod y Prynhawn am 1.30

Siaradwr gwadd Cyfarfod y Prynhawn



Ffion Fielding ar y testun *Hawlio Heddwch*


*(Mae Ffion yn Rheolwr Prosiect 'Hawlio Heddwch' Academi Heddwch Cymru ac yn un o blant y Priordy sy'n fwy adnabyddus i ni efallai fel Ffion Kynaston)*

Trefnir lluniaeth ysgafn rhwng y cyfarfodydd. Croeso cynnes i bawb



**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

**Joan Thomas..**



## Sefydlu Gweinidog a Gofalaeth Newydd

***ROEDD*** nos Wener, 12 Ebrill 2024, yn noson arbennig iawn yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin.  Yn ogystal â bod yn Oedfa Sefydlu'r Parchg Beti-Wyn James yn Weinidog ar Eglwysi Elim Ffynnon-ddrain a Heol Awst, crewyd Gofalaeth newydd, sef Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin, wrth uno Gofalaeth y Priordy, Cana, a Bancyfelin, gyda Gofalaeth Heol Awst ac Elim. Gan ei bod yn noson bwysig, nid yn unig i'r eglwysi ac i Beti-Wyn, ond i dref Caerfyrddin hefyd, pleser oedd cael presenoldeb Maer a Maeres y dref, ac Uchel Siryf Dyfed a'i chymar, y mae Beti-Wyn yn Gaplan iddynt.

Llywyddwyd yr Oedfa gan y Parchg Tom Defis, Cadeirydd Gofalaeth Elim a Heol Awst.  Wrth groesawu pawb, mynegodd y golled a gafwyd wrth inni gofio am y diweddar Roland Jeremy, ysgrifennydd Elim, a fu'n rhan o'r trafodaethau, ac y claddwyd ei lwch yn gynharach yn y dydd. Organydd y noson oedd John Evans, un o gyfeilyddion Elim.

Y Parchg Catrin Ann, Pentre Morgan, oedd yn gyfrifol am yr Alwad i Addoli, a'r Parchg Siân Elin Thomas, Crymych, a ddarllenodd o'r Gair cyn i'r Parchg Dewi Myrddin Hughes, Clydach offrymu gair o weddi.  Joan Thomas, Cofnodydd Pwyllgor Diaconiaid Gofalaeth Elim a Heol Awst, a roddodd Hanes yr Alwad gan sôn am gyfanrif yr aelodaeth sydd bellach dros 500, a diolch i'r pregethwyr a fu mor barod i dderbyn ein gwahoddiad i ddod atom i gynnal oedfaon pan oeddem yn ddi-Weinidog.



Yn gyfrifol am y Sefydlu, y rhan hanfodol o'r Oedfa, oedd Llywydd y noson.  Wrth i Beti-Wyn ymateb diolchodd i bawb am bob cymorth, ac am y fraint o gael arwain Eglwysi'r Priordy, Cana, a Bancyfelin, am ddwy flynedd ar hugain. Ymhyfrydai bod yr aelodau wedi caniatáu iddi ddod i 'nabod eglwysi'r ardal drwy eu gwasanaethu yn ôl y galw dros y blynyddoedd diwethaf a agorodd y drws at drafodaethau. Ffrwyth y tradogaethau hynny oedd yr achlysur arbennig hwn o sefydlu Gofalaeth newydd.

Cyflwynwyd yr Emyn Urddo o waith y diweddar Barchg O T Evans gan Natalie Morgan, Aberteifi, cyn i Sulwyn Thomas, Cadeirydd Gofalaeth y Priordy, Cana, a Bancyfelin, gyflwyno Beti-Wyn ar ran yr Ofalaeth honno.  Soniodd am y cydweithio a fu gynt ar wahanol adegau, a sut y datblygodd y berthynas ymhellach, gan arwain

yn ddigon naturiol at lunio Gofalaeth newydd.  Estynnodd Bet Jones, Elim, groeso ar gân ar ran Elim a Heol Awst, gan gyfeirio, mewn arddull hwyliog, at y gwahanol agweddau ar fywyd Beti-Wyn.  Cafwyd eitem ddoniol ar ffurf rap gan blant bach Ysgol Sul Elim, ac ymunodd Beti-Wyn yn yr hwyl gan rapio wrth gyflwyno rhodd fechan iddynt i gyd.  Estynnwyd deheulaw cymdeithas i Beti-Wyn gan ysgrifenyddion y pum eglwys, cyn iddynt gyfarch ei gilydd fel arwydd bod cwlwm newydd yn dechrau rhwng y bum Eglwys. Y Parchg Guto Llywelyn a gyflwynodd weddi fer dros yr Ofalaeth newydd.

Yn dilyn hyn cafwyd cyfarchion gan Jean Lewis, is-gadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Soniodd mor braf yw gweld eglwysi yn gwahodd Gweinidog newydd atynt, gan obeithio y bydd pawb yn ofalgar ohoni.  Wrth i'r Parchg Emyr Williams, cadeirydd Cwrdd Dosbarth Myrddin, estyn cyfarchion ar ran y Cwrdd Dosbarth, cyfeiriodd yn ysgafn at y chwythwm o wynt a ddaeth i'w plith bron i chwarter canrif yn ôl, ac un a fu'n weithgar gyda hwy byth oddi ar hynny.




Pregethwyd gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Llandysul, ar adnod 20 o'r drydedd bennod o Lythyr Paul at y Philipiaid: "*Oherwydd yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni, ac oddi yno hefyd yr ydym yn disgwyl Gwaredwr, sef yr Arglwydd Iesu Grist.*"   Pwysleisiai Paul mai Iesu Grist yw'r Gwaredwr, y gwerinwr o Nasareth, a groeshoeliwyd, ac a atgyfododd ar y trydydd dydd.

I ddwyn noson hanesyddol a llawen i ben, gyda phawb yn llawn brwdfrydedd wrth edrych tua'r dyfodol, canwyd yr emyn olaf, a gwneud casgliad tuag at Apêl Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chymorth Cristnogol.

Yna aeth y gynulleidfa o tua dau gant i'r festri i fwynhau swper helaeth, cymdeithasu, a gwylio Beti-Wyn yn torri'r gacen hardd, bwrpasol, o waith Nia Evans, Elim.  Yn rhan o addurniadau'r gacen roedd lluniau pum Capel yr Ofalaeth, y car coch a'r ffôn fach, gyda hi ei hunan, ei gliniadur, a'r Beibl agored, ar y top.





***BU'R*** noson yn gychwyn ardderchog i'r bennod newydd hon yn hanes y dystiolaeth Gristnogol Gymraeg yng Nghaerfyrddin a Bancyfelin. Diolchwn i Dduw am y cyfle hwn a ddaeth i'n rhan a gweddïwn am Ei fendith ar waith yr ofalaeth.

## YR OEDFA



## MWYNHAU'R WLEDD WEDI'R OEDFA



**CÂN I GYFLWYNO CROESO ELIM A HEOL AWST**

**gan**

**BET JONES**

***a gafodd ei datgan ganddi yn yr Oedfa Sefydlu***



(Alaw……Bugail Aberdyfi)

Mae neges bwysig yn fy nghân
Cawn estyn croeso'n ddiwahân
Y gwir Barchedig Beti-Wyn
A anrhydeddir heddi!

Dwy flwydd ar hugain aeth ar wib
Amserlen lawn yw'r her o hyd,
Os clywch hi'n bloeddio…'co ni off'
Bydd gorchwyl fawr ar gychwyn!

Bu'n casglu'r defaid oll o'r waun
O Heol Awst a Ffynnon-ddrain
I godi stâd y cyfryw rai
'Mhriordy, a Bancyfelin.

Merch lon ei bryd o Glydach yw,
A chyn Weinidog….'Barry view',
Ond galwad ffydd a'i denodd hi
I diroedd ffrwythlon Myrddin!

Yn fam i ddwy, 'roedd wrth ei bodd
Yn rhoi o'i gallu ymhob modd,
'Doedd dim i'w wneud ond 'clatshio bant'
'Roedd clychau'r Saint yn galw!

Fe'i heriwyd hithau gan y Clo,
A'r drysau 'nghau i Saint y fro,

Ond Beti-Wyn sy'n 'Techi Pro'
Rhaid rhannu'r gair ar 'Utube'.

Mae'n cario'i ffôn, ma'r ddwy fel un
Cyn gynted bydd 'i ar ddihun,
Mae'n anfon ebyst, text neu lun
Cyn cychwyn am ei brecwast!

Mae'n cerdded tir a llwybrau'r fro,
Bu'n rhan o'r criw ar daith 'Am Dro',
Mae'n rhuthro o fan i fan ar ffo,
'Sdim dal ble bydd 'i nesa!

Mor braf cael tystio'r ddefod hon
Ar ôl arbrofi blwyddyn gron,
Am rannu oriau dwys a llon,
Rhown werthfawrogiad teilwng!

Mae'r gân o groeso'n dod i ben,
Gofynnwn hyn cyn tynnu'r llen,
Cymerwch ni'r Parch Beti Wyn,
Mae taith gyffrous ar gychwyn!

***Diweddglo, ar yr alaw Beti-Wyn***

Geneth fach dlos yw Beti-Wyn
Yn byw gerllaw mewn bwthyn gwyn,
Mae'n hardd ei llun, mae'n un o gant,
Mae'n drysor drud ym myd y plant,
O Beti-Wyn…O Beti-Wyn!



## Y BERERINDOD I GOPA BRYN MYRDDIN








## PRYNHAWN DYDD GWENER Y GROGLITH

***MAE'N*** rhan o'n traddodiad ni yng Nghaerfyrddin bellach i gerdded i gopa Bryn Myrddin, y bryngaer hanesyddol a chyn hanesyddol yn wir,



sydd wedi'i leoli ger y Felin-wen, rhwng Abergwili a Nantgaredig a chynnal gwasanaeth byr yno am 3 y prynhawn.


Ond tybed a fyddai'r tywydd yn caniatáu i ni wneud hynny eleni gan mor wlyb a llithrig yw'r tir oherwydd y glaw cyson a gafwyd yn ddiweddar. Ond doedd dim rhaid poeni, cafwyd awr o dywydd da ar yr adeg iawn!  Er bod ychydig ohonom wedi chwarae'n saff ac aros yng nghysgodion y bryn yn enw diogelwch, roedd digon o deuluoedd ifanc a phlant yno i'n cynrychioli ar y daith i'r copa a hefyd i gludo'r Groes!

Y geiriau y mae pawb yn eu cydadrodd ar ddechrau oedfa yn y Priordy yw *Cyntaf air a ddywedaf y bore pan gyfodaf, Croes Crist yn wisg amdanaf,* sef dyfyniad o *Lyfr Du Caerfyrddin.*  A chydio yn symbol y Groes, symbol i ddilynwyr Iesu o ddyddiau cynnar iawn, wnaeth ein Gweinidog yn ei myfyrdod ar ben y bryn. Dangosodd fel mae'r Groes blaen yn symbol o erchylldra ond hefyd o gariad rhyfeddol, o fywyd newydd yn esgor o farwolaeth. Nododd fel mae'r Groes yn parhau i fod yn symbol o ffydd a chred yr Eglwys heddiw ac i gynrychioli'r heriau sy'n ein hwynebu ni Gristnogion yn yr unfed ganrif ar hugain.

Cyflwynodd Natalie Morgan y darlleniad, yn seiliedig ar y Croeshoelio. Canwyd dau emyn: *Wrth edrych Iesu ar dy groes* a *Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb* ar y dôn Bryn Myrddin.

Dychwelodd pawb yn ddiogel i ganolfan Fferm Allt Myrddin i gymdeithasu a mwynhau sgwrs uwchben paned a theisenau hyfryd.

Mae'n diolch yn fawr i Lyn Jones (Bancyfelin) am ei waith manwl ynghylch y Groes, i deulu Richards a'u staff yn Fferm Allt Myrddin am croeso a'r lluniaeth, i bawb am eu presenoldeb ac, yn anad un person arall, i'n Gweinidog am ei myfyrdod ac am drefnu'r cyfan.



***PRYNHAWN*** gwerthfawr a'r digwyddiad yn help i ni sylweddoli gwir arwyddocâd Dydd Gwener y Groglith.

## Y BERERINDOD I GOPA BRYN MYRDDIN













# SUL Y PASG



## Y Bore

***Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd, cododd ein Gwaredwr, daeth o'r rhwymau'n rhydd…***

**Dyna oedd y newyddion da a thestun ein dathlu ar fore Sul y Pasg yn y Priordy pan groesawyd aelodau Cana a Bancyfelin, Heol Awst ac Elim a chyfeillion eraill atom. Braf hefyd oedd gweld cynulleidfa gymysg oedran yn cynnwys nifer da o blant.**

**Llwyddodd ein Gweinidog i gipio sylw'r plant ar unwaith gyda'i stori'n defnyddio wyau – rhai'n cynnwys symbolau'r Pasg fel croes, hoelion a charreg ac un ohonynt yn wag. Daethant drwy hyn i wir werthfawrogi arwyddocâd y diwrnod arbennig hwn, sef bod Iesu'n rhydd ac yn fyw!**



**A thrwy nifer o symbolau cawsom ninnau'r oedolion hefyd ein tywys drwy'r Wythnos Fawr at Sul y Pasg. Diolch i'r aelodau a ddaeth â'r symbolau hyn draw i'r sêt fawr, fel deilen balmwydd, tywel, bara, croes, defnydd gwyn ac ŵy Pasg, gan eu gosod ar Fwrdd y Cymun a dweud ychydig amdanynt a chyflwyno darlleniad o'r Beibl ynghyd â gair o Weddi.**

**Tybed faint ohonoch sy'n dweud pethau mawr am chwyn styfnig sy'n ymddangos yn ein gerddi bob blwyddyn yn ddifeth?! Yn ei myfyrdod byr cydiodd ein Gweinidog mewn cymhariaeth, efallai braidd yn annisgwyl, sef chwyn yn mynnu tyfu â'r Iesu'n mynnu byw!**

**Yn dilyn hyn cawsom ffilm a chân dros y sgriniau a'r elfennau clyweledol hyn yn cryfhau'n gwerthfawrogiad o'r achlysur.**

**Diweddwyd yr oedfa arbennig hon drwy i ni gydgymuno dan arweiniad ein Gweinidog. A hyfryd oedd derbyn ŵy Pasg bach siocled gan ein Gweinidog wrth i ni ymadael.**

**Mae'n diolch yn fawr i Gareth, Mared, Luned, Catrin (Y Priordy), Marlene (Cana), Gwyneth (Bancyfelin) am gymryd rhan yn y gwasanaeth, i Angharad am ei gwaith wrth yr organ,**

**i Alison am gyhoeddi, i Greta a Nel a Cadi ac Ifan a fu'n casglu ac i Emlyn ac Elis (Y Priordy), Howard (Cana) a Joanne (Bancyfelin) am gynorthwyo'n Gweinidog gyda'r Cymun.**

**Y Prynhawn**

**Mae'n siŵr y bu rhagolygon y tywydd ar feddwl sawl un wrth i amser y daith ar brynhawn y Pasg drwy bentref Bancyfelin agosáu. Doedd dim rhai poeni o gwbl gan ei bod yn sych wrth i bawb ymgynnull ger Y Wenallt i gludo'r Groes ar hyd y ffordd fawr i gyfeiriad y capel.  Arhoswyd bob yn hyn a hyn ar y daith i ganu emyn cyn cyrraedd y capel ei hunan.**

**Cawsom ein cyflwyno i hanes ac arwyddocâd  y Pasg yn y capel gan nifer o lefarwyr, gan ddangos yn glir i ni fel mae'n Ŵyl Gristnogol o bwys mawr.   Mae'r Ŵyl yn diweddu ar nodyn aruchel gan mai nid marwolaeth Iesu oedd diwedd yr hanes. Ar fore'r trydydd dydd daeth Iesu yn ôl yn fyw drwy nerth Duw. Dilynwyd yr hanes gan gyfres o weddïau pwrpasol a gair gan ein Gweinidog.**



**Ar brynhawn mor fuddugoliaethus, hyfryd oedd diweddu gyda phaned a Byns y Grog arbennig o flasus a chael mwynhau cymdeithasu.**




**Diolch i Natalie am gyflwyno emynau ar y daith,  i Eirian, Julie, Katie, Joanne, Veronica, Carwen, Angharad a Hanna am gymryd rhan yn y gwasanaeth yn y capel ac i Trefina am gyfeilio ac i'n Gweinidog am ei chyfraniad ac am drefnu'r cyfan. Gwnaeth Lyn a Delme yn siŵr ein bod yn gwbl ddiogel ar y daith a bu'r gwragedd yn hynod o brysur yn darparu'r lluniaeth. Llwyddodd Sulwyn, Llywydd Swyddogion yr Ofalaeth, i grynhoi'r diolchiadau yn ei ffordd effeithiol ac unigryw ei hunan.**



# SUL Y PASG


PRIORY CONGREGATIONAL CHURCH.




Eglwysi Bancyfelin, Cana a'r Priordy.
Dathlu'r Pasg yn y Gymuned
Community Easter Celebration
Dydd Sul, 31 Mawrth am 3 o'r gloch
Sunday, 31 March at 3pm



# Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2024

Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn dathlu ymgyrch arwrol **Deiseb Heddwch Merched Cymru 1923-24**, ac yn datgan yr angen i barhau gyda'r alwad am heddwch can mlynedd yn ddiweddarach.

Daeth staff, prentisiaid a gwirfoddolwyr yr Urdd, a myfyrwyr cwrs ESOL (dysgwyr Saesneg fel ail iaith) Coleg Caerdydd a'r Fro at ei gilydd ar gyfer y gweithdy a chreu neges 2024. Merched oedd yr holl fynychwyr, a hynny er mwyn adlewyrchu Deiseb Heddwch Menywod Cymry 1923-24. **Elan Evans** a'r bardd a chantores, **Casi Wyn**, oedd yn arwain y gweithdy.




Ganrif yn ôl, ar yr 19eg o Chwefror 1924, agorwyd cist Deiseb Heddwch Menywod Cymru gyda'i 390, 296 o lofnodion o flaen 600 o fenywod yr Unol Daleithiau yn y Baltimore Hotel, Efrog Newydd. Roedd y ddeiseb yn apelio am weld cydweithredu dros heddwch yn y byd, ac mae ei stori wedi ysbrydoli'r Urdd i annog criw o ferched ifanc i ddod at ei gilydd i lunio'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni. Mae'r neges yn datgan yr angen i weithredu ac i barhau i alw am Heddwch. Rhaid rhoi diwedd ar erchyllterau, rhyfeloedd a thrais, gan nodi'n glir y gall cydweithrediad, angerdd a gobaith ein harwain tuag at ddyfodol gwell.

Bydd y neges yn ymddangos ar ffurf fideo ar gyfryngau cymdeithasol yr Urdd ar 17 Mai 2024.

# Gweithred yw Gobaith

# Hope is an Action

Urdd

Llond cist
o lofnodion,
a chanrif o sôn
am Gymru
heddychlon.

Ond heddiw,
a oes heddwch?

Cawn gip,
rhywle
rhwng y sŵn
a'r llwch,
yn llewyrch llygaid
y plentyn bach
sy'n hedfan barcud
yn yr awyr iach.

Gan mai gweithred yw gobaith
i fyw yn gytûn,
i blannu daioni
yng nghalon
pob un.

Ond heddiw,
a oes heddwch?

Oes,
yng nghariad
a harmoni'r gân -
yn her canrif newydd
y ddalen lân.



17 Mai

Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2024

2024 Peace and Goodwill Message

Cofiwch rhannu
Neges Heddwch ac
Ewyllys Da 2024 ar:



Urdd Gobaith Cymru

@urddgobaithcymru

@Urdd

urdd.cymru/heddwch

**NOSON PITSA…. A PHWDIN!**




**Tocynnau ar gael gan Alison a Catrin Heledd**

**(£20 – Oedolion   £10 – Plant dan 12)**

**Os oes unrhyw un yn dymuno cael ei gludo a wnewch chi gysylltu ag Alison, os gwelwch yn dda**

| | |
|---|---|
| **Y PRIORDY**<br><br>**Y GYMDEITHAS**<br>**Nos Lun**<br>**13 Mai 2024**<br>**Am 7**<br>**Yn y Festri**<br>**Siaradwr Gwadd**<br>**Dr Mary Thorley** |  |

## MARATHONWYR Y PRIORDY!




***Llongyfarchiadau i Sara Llwyd James (🡐) ar gwblhau Hanner Marathon Llundain ar 7 Ebrill 2024 ac i Soffia Rizzi ac Elin Wyn James (🡓) ar gwblhau Marathon Llundain ar 21 Ebrill 2024!***






# Ifanc@Priordy

## Helo bawb!

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r Pasg. A dyma ni yn cychwyn tymor newydd yn yr Ysgol Sul gyda digon o bethau cyffrous ar y gweill!

**Dyma drefn mis Mai:**

| | | |
|---|---|---|
| Mai 5 | Ysgol Sul | PIP i aros yn yr oedfa |
| Mai 12 | Cwrdd Plant a phobl Ifanc<br>Gwasanaeth Cymorth Cristnogol | Cwrdd Plant a phobl Ifanc<br>Gwasanaeth Cymorth Cristnogol |
| Mai 19 | Ysgol Sul | PIP i aros yn yr oedfa |
| Mai 26 | Hanner Tymor | Hanner Tymor |


## CHWILOTAIR LLYTHYREN 'P'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | P | P | Y | S | G | O | D | I | I | O | E | P | A |
| E | P | S | E | A | L | P | A | U | L | L | I | L | U |
| G | A | O | L | P | E | D | G | R | O | F | I | L | O |
| S | S | A | O | R | D | G | P | P | P | C | N | L | S |
| O | G | P | S | P | T | O | P | T | S | I | M | A | T |
| A | T | O | I | P | T | W | P | I | R | D | E | P | P |
| P | I | P | P | I | P | R | R | Y | I | E | N | T | O |
| N | D | P | F | I | E | P | P | R | I | O | D | A | S |
| A | E | F | S | M | W | I | R | O | T | E | A | R | P |
| R | A | O | L | G | P | O | D | R | E | A | R | A | R |
| R | O | G | P | T | T | A | P | L | O | A | I | T | D |
| C | Y | P | E | N | T | E | C | O | S | T | L | P | E |
| E | P | G | Y | O | I | E | P | T | A | L | I | E | P |
| P | R | I | R | E | L | I | P | T | R | R | G | P | A |

POTIFFAR
PENTECOST
PRISCILA
PASG
PRIODAS
PILERI
POEN
PRAETORIWM
PEILAT
PAUL
PYSGOD
PEDR

**Byddwn yn dathlu'r Pentecost cyn bo hir. Fedrwch chi weld 6 gwahaniaeth rhwng y naill lun a'r llall?**





**Hwyl fawr tan y tro nesa, Beti Wyn**

**MELERI A LUNED YNG NGOFAL Y STONDIN GACENNAU YM MORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL. DIOLCH AM BOB CYFRANIAD**



**PAWB YN MWYNHAU!**



**Carys Morgans**



**CWRDD PLANT**

**Thema: Tomos yn cael trafferth i gredu.**

Hyfryd oedd gweld yr haul yn tywynnu ar fore Sul 14 Ebrill wrth i deulu'r Priordy ddod ynghyd ar gyfer gwasanaeth o dan arweiniad ein plant a phobl ifanc. Fe ddechreuodd y gwasanaeth gyda gweddi agoriadol a chroeso cynnes arferol Beti-Wyn, yna fe ddaeth Greta Wyn i'r pulpud i gyhoeddi'r emyn cyntaf, sef 'Duw sy'n codi ei dy' (rhif 625). Yn dilyn hyn fe gafwyd y cyhoeddiadau a'r casgliad. Diolch i Hedd, Brynmor, Mali, Erin ac Elijah am gasglu.

Yn nesaf daeth Cadi Wyn i gyhoeddi emyn rhif 416 ‘Y mae i'n Waredwr' ac wedi’r emyn daeth Elliw a Gwydion i’r pulpud i roi hanes Tomos a'r modd y cafodd drafferth i gredu bod Iesu'n fyw wedi'r croeshoelio. Ni chredodd hyd nes i Iesu fynd i'w dŷ wythnos yn ddiweddarach a dangos ei ddwylo iddo. Dywedodd Iesu wrtho 'Edrych ar fy nwylo; rho dy fys i mewn ynddyn nhw. Estyn dy law i'w rhoi ar fy ochr i. Stopia amau! Creda!'

Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd ffilm fer yn adrodd yr hanes, cyn i Nel ddod i'r pulpud i'n harwain mewn gweddi oedd yn diolch am y cyfle i ddathlu bod Iesu yn fyw ac i gofio am bobl yn ein byd sy'n sâl, yn unig ac yn ofnus. Wedi Gweddi'r Arglwydd fe ddaeth Alys i gyhoeddi emyn 412 'Cariad Crist', a chafodd Band y Priordy cymorth band taro'r Ysgol Sul i gyfeilio i'r emyn.





Ac wedi hyn, aeth pethau'n ffradach! Roedd gan Beti-Wyn siswrn a daeth Mr Sulwyn Thomas i'r blaen i fodelu tei newydd i bawb...a wel, dw i ddim yn gwybod beth ddaeth dros Beti-Wyn ond fe dorrodd ei dei gyda'i siswrn! Gallwch chi gredu'r fath beth?! A dyna yn union oedd cwestiwn Beti-Wyn

i'r plant. Pe bai nhw'n dweud wrth eu ffrindiau yn ysgol am beth oedd wedi digwydd, tybed a fyddai'r ffrindiau yn eu credu?

Yna fe gafodd Brynmor, Meredydd, Ifan a Cadi gyfle i ddyfalu beth oedd yn sach Beti-Wyn, a chwarae teg i'r 4 am ddyfalu'n gywir trwy deimlo yn y sach yn unig, gyda Brynmor yn dyfalu potel swigod, Meredydd yn dyfalu het, Ifan yn dyfalu pêl a Cadi'n dyfalu sbectol haul. Yn yr un modd ag yr oedd Iesu'n annog Tomos i gredu, roedd ein Gweinidog yn ein hannog i wrando ar storïau'r Beibl ac ymddiried yn Iesu er nad ydym yn gallu ei weld, a chwarae teg i Hedd am gredu Beti-Wyn fod ganddi gacen i'w rhannu gyda'r plant er nad oedd yn medru ei gweld! Diolch yn fawr i Beti-Wyn am ei haelioni wrth rannu cacen dathlu'r Cwrdd Sefydlu Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin gyda'r plant a'r bobl ifanc.



Daeth y gwasanaeth i ben drwy ganu emyn rhif 422 'Molwn Di, O Arglwydd Dduw' a chyhoeddwyd y fendith.

***DIOLCH*** i blant a phobl ifanc yr Eglwys am eu gwaith graenus, i Fand y Priordy am y gerddoriaeth egnïol, yn enwedig i Heather ar y piano a Luned ar y drymiau am y tro cyntaf, a diolch i Beti-Wyn am rannu'r neges o bwysigrwydd CREDU heb weld.

**Paned a Chacen**
**Prynhawn Sul 19 Mai- 4.30**
**Y Sied**
**gyda**
**Heledd ap Gwynfor**

**Pris £6.**
**Enwau ar y daflen yn y cyntedd os gwelwch yn dda**






**LLEUWEN STEFFAN YN Y PRIORDY**

**Mwynwen Jones..**



## GAIR O WERTHFAWROGIAD

Cyfareddol... ysbrydoledig. Dewiswch chi, ond dyna ddau air addas i ddisgrifio nos Lun 22ain o Ebrill yng Nghapel y Priordy pan ddaeth yr unigryw Lleuwen Steffan a'i llais melfedaidd di-ymdrech i wneud cyflwyniad dan yr enw Tafod Arian sy'n seiliedig ar emynau coll y werin.

Braf gweld cynulleidfa dda yn cynnwys llawer o bobl ifanc a phlant wedi dod ynghyd. Roedd nifer o wynebau newydd ac ambell unigolyn di-Gymraeg wedi ymuno hefyd i'w chlywed yn trafod y pwnc drwy gefnogaeth cyfieithu.

Plannwyd hedyn y prosiect hwn pan ddaeth Lleuwen ar draws casgliad o recordiadau sain o'r oes a fu sydd yng ngofal Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Roedd y traciau hynny'n cynnwys lleisiau unigolion yn cofnodi rhai or emynau coll – ambell lais yn mynd i hwyl, un arall yn canu ac arall yn eu llefaru'n angerddol.

Wrth gyflwyno rhain i ni, byddai Lleuwen yn cyfoethogi'r traciau hynny mewn modd cyfoes drwy ychwanegu ei llais ei hun gan ddefnyddio ambell offeryn yn gefndir iddynt – y cyfan yn asio'n berffaith a'r gorffennol, a'r presennol yn un.



Bydd rhai ohonoch yn gwybod bod gennyf ddiddordeb personol iawn yn y digwyddiad hwn fel wyres i un o'r lleisiau yma sef **David Griffiths**,

Pontarlyb, Llanfynydd. Cefais fraint o'r mwyaf clywed cyflwyniadau cynharach Lleuwen pan oedd yn holi am ganiatâd y teulu i ddefnyddio'i lais. Cyhoeddwyd erthygl yn rhifyn Rhagfyr 2023 y Papur hwn am hynny.

Roedd y profiadau cyntaf hynny'n emosiynol ac yn cyffwrdd â'r galon a gallaf ond dweud bod y cyflwyniad diweddaraf hwn yn y Priordy wedi rhagori eto ar hynny.

Mae taith Lleuwen yn parhau a hynny yn rhyfeddol am ddim. Diolchodd Lleuwen am nawdd gan Undeb Annibynwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Bedyddwyr Gogledd Ddwyrain Cymru. Os nad ydych wedi achub ar y cyfle i'w gweld yn barod, yna ewch ati 'da chi.

***Fel y nodwyd yn yr erthygl roedd y mynediad i gyflwyniad Lleuwen yn rhad ac am ddim ond roedd cyfle i bawb gyfrannu at Apêl Ffynhonnau Byw wrth ymadael os oeddent yn dymuno. Gweler isod ragor o wybodaeth am yr Apêl.***

**APÊL FFYNHONNAU BYW**

*Yn ystod 2023-2024 mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn cynnal apêl enwadol i godi arian at waith Cymorth Cristnogol, gan ganolbwyntio'n benodol eleni ar eu gwaith yng Ngholombia.*




**Lansiwyd yr Apêl yn rhithiol ar Nos Fercher 22 Tachwedd 2023. Ymunodd Nathalie Mericer, Rheolwr prosiect Cymorth Cristnogol, yn fyw â'r Lansiad o Golombia.**

**Cewch fwy o wybodaeth am yr Apêl ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.**

# HER Y GRAWYS 2024

**Rhoi heibio un darn o fwyd
yn ystod Tymor Y Grawys
a'i gyflwyno i'r banc bwyd.
Beth amdani?!**




Diolch i bawb a fu'n ymprydio ac am y cyfraniadau at Fanc Bwyd Eglwys Crist. Bu'n ymdrech arbennig

.

# Papur Priordy'n cofio

## JOHN ELIAS
**1774-1841**



***TRI*** o bregethwyr sy'n cael eu hadnabod fel cewri'r pulpud Cymraeg yn rhan gyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw Christmas Evans (1766-1838), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, William Williams o'r Wern ger Wrecsam (1791-1840), gweinidog gyda'r Annibynwyr a John Elias (1774-1841), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd **a aned 250 o flynyddoedd yn ôl i'r flwyddyn hon**.



Ganed John Elias yn ffermdy Crymllwyn-bach ym mhlwyf Abererch, ger Pwllheli. Does dim sicrwydd ynghylch yr union ddyddiad ond fe'i bedyddiwyd ar 6 Mai 1774, deugant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn. Roedd ei rieni a'i nain a'i daid o ochr y tad yn byw ar yr aelwyd. Bu'i daid yn ddylanwad mawr arno. Dysgodd e i ddarllen a byddai'n mynd gydag e i'r Eglwys bob bore Sul. Cafodd hefyd gyfle i ddilyn rhai o'r pregethwyr Methodistaidd a fyddai'n ymweld â'r ardal leol. Ni dderbyniodd addysg ffurfiol, ac eithrio ychydig o fisoedd mewn ysgol yng Nghaernarfon.



Gwehyddion oedd y teulu a dilynodd John Elias yr un grefft. Er mwyn cael gwaith symudodd i Ynyspandy, ger Penmorfa, cartref Griffith Jones, pregethwr Methodistaidd. Dyma pryd y daeth yn Fethodist o'r iawn ryw. Cafodd ei dderbyn yn y cyfarfod misol fel pregethwr ar Ddydd Nadolig 1784 ac yntau'n ugain oed. Mabwysiadodd enw bedydd ei dad, Elias, fel ei gyfenw ei hunan.

Buan iawn y datblygodd yn bregethwr grymus a phoblogaidd, gan

wneud yn fawr o'i ddoniau areithio, ei ddychymyg byw a'i lais nerthol. Roedd yn gyfathrebwr effeithiol a dylanwadai'n fawr ar ei gynulleidfaoedd drwy Gymru. Byddai miloedd yn tyrru i wrando arno'n pregethu.

Symudodd i fyw i Ynys Môn ym 1799 ar ôl priodi Elizabeth Broadhead, Cemaes, gan ymgartrefu yn Llanfechell ger Cemaes ble y cadwai ei briod fasnach. Yn ddiddorol iawn, mae portread ohoni yn nrama hanesyddol Saunders Lewis, Merch Gwern Hywel (1964). Cawsant bedwar o blant ond bu dau farw'n ieuanc. Bu farw Elizabeth 2 Ebrill 1828. Ymhen dwy flynedd priododd Ann (o Aberffraw yn wreiddiol), gweddw Syr John Bulkeley, Presaddfed, Bodedern. Symudodd wedi hynny i'r Fron, Llangefni. Mae hithau i'w gweld yn yr astudiaeth o briodas John Elias ac Ann yn nrama deledu Saunders Lewis, Dwy Briodas Ann (1973).

Yn 1811 roedd John Elias ymysg y to cyntaf o weinidogion i'w hordeinio pan ffurfiwyd enwad y Methodistiaid Calfinaidd ar ôl yr ymwahanu ag Eglwys Loegr. Daeth yn brif arweinydd y Methodistiaid yn y gogledd, gan ddilyn Thomas Charles a chwaraeodd ran amlwg yn y gwaith o lunio Cyffes Ffydd (1823) a Gweithred Cyfansoddiadol (1826) yr enwad. Cyfyng iawn oedd ei ddiwinyddiaeth ac roedd yn Galfinydd i'r carn. Arddelai Uchel Galfiniaeth. Rhwymodd ddogfen gredo'r enwad wrth athrawiaeth Uchel Galfiniaeth, gan achosi blinder i Fethodistiaid mwy eangfrydig cenedlaethau diweddarach. Bu awtocratiaith John Elias yn loes calon i wŷr fel John Jones (1796-1857) a Lewis Edwards (1809-87), y to iau o arweinwyr Methodistiaeth. Roedd yn geidwadol o ran ei wleidyddiaeth a gwrthwynebai'n llym pob Radicaliaeth wleidyddol a chymdeithasol. Roedd yn ffigur awdurdodol ac unbeniaethol a chafodd ei lysenwi'n 'Pab o Fôn' gan ei feirniaid. Dylanwadodd, er enghraifft, ar y farn gyhoeddus ar Ynys Môn yn erbyn Rhyddfreinio'r Pabyddion a mesur Diwygio'r Senedd 1823. Serch hynny, fel pregethwr nerthol a phoblogaidd, cyfrannodd yn sylweddol at dwf Anghydffurfiaeth Cymru yn ei gyfnod.



Bu'n gefnogwr selog i Gymdeithas y Beiblau ac i Gymdeithas Genehadol Llundain.

Bu farw 8 Mehefin 1841 a'i gladdu ym mynwent Llanfaes, ger Biwmares.

Cyhoeddodd nifer o lyfrau ar faterion crefyddol a byddai'n cyfrannu i gylchgronau. Roedd hefyd yn llythyrwr nodedig. Fe yw awdur yr emyn adnabyddus *Ai am fy meiau i* (Caneuon Ffydd - 482). Mae Cydymaith Caneuon Ffydd yn rhoi cefndir yr emyn i ni: *Yn ôl traddodiad, ysgrifennodd yr emyn yn dilyn ymateb ei forwyn, i'r ddyletswydd deuluaidd un bore. Darllenodd e o Eseia 53. Pan oedd ar fin ymadael am y seiat y noson honno, gofynnodd y forwyn iddo, 'Ai am fy meiau i y dioddefodd Iesu mawr?' Nid atebodd ar y pryd, ond lluniodd yr emyn ar ei ffordd i'r seiat.*

***DYFYNNWN*** yr emyn yn llawn wrth gloi:



| | |
|---|---|
| **Ai am fy meiau i<br>dioddefodd Iesu mawr<br>pan ddaeth yng ngrym ei gariad ef<br>o entrych nef i lawr?** | **Bu'n angau i'n hangau ni<br>wrth farw ar y pren,<br>a thrwy ei waed y dygir llu,<br>drwy angau, i'r nefoedd wen.** |
| | |
| **Cyflawnai'r gyfraith bur,<br>cyfiawnder gafodd Iawn,<br>a'r ddyled fawr, er cymaint oedd,<br>a dalodd ef yn llawn.** | **Pan grymodd ef ei ben<br>wrth farw yn ein lle,<br>agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,<br>i bur drigfannau'r ne'.** |
| | |
| **Dioddefodd angau loes<br>yn ufudd ar y bryn,<br>a'i waed a ylch y galon ddu<br>yn lân fel eira gwyn.** | **Gorchfygodd uffern ddu,<br>gwnaeth ben y sarff yn friw;<br>o'r carchar caeth y dygir llu,<br>drwy ras, i deulu Duw.** |

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 5 Mehefin 2024 am 7<br>yn y Festri**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

***Trefnir cyswllt zoom i'r sawl sy'n methu â bod yn bresennol***


**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

## Notre Dame du Haut (Ronchamp, Ffrainc)



Cwblhawyd eglwys Gatholig Notre Dame du Haut, sy'n cael ei hadnabod yn anffurfiol fel Ronchamp, yn 1954.



Mae'r eglwys yn cael ei hystyried yn un o'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth fodern gan y diweddar bensaer Ffrengig / Swisaidd Le Corbusier.

Pan mae'n bwrw glaw, mae dŵr yn arllwys dros y to sydd ar ogwydd i mewn i ffynnon, gan greu rhaeadr ryfeddol.

**AR Y WE: www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

## LLONGYFARCHIADAU I'R PARCHEDIG CATRIN ANN LLYWYDD YR ŴYL BAN GELTAIDD 2024




| ☎ RHIFAU FFÔN ☎ | | |
|---|---|---|
| **Y Samariaid yng Nghymru** | SAMARITANS SAMARIAID | **Ffoniwch**<br>**☎ 116 123** |
| | | |
| **Tir Dewi** | Tir Dewi | **Ffoniwch**<br>**☎ 0800 121 4722** |



# CORNEL

# CODI GWÊN!

Tra oedd yng nghwmni ei mam-gu un dydd fe ddywedodd ei hywres fach wrthi, ‘Mam-gu, wyt ti’n sylweddoli dy fod ti a Duw yn debyg?’ Gyda balchder tawel gofynnodd ei mam-gu, ‘Sut ydy ni’n debyg cariad?’ Atebodd yr wyres fach, ‘Mae’r ddau ohonoch yn hen.’

**MWYNHAODD 94 O AELODAU O WAHANOL GAPELI’R CYFUNDEB BRYD O FWYD BLASUS YNG NGHAFFI’R MART, CAERFYRDDIN YN DDIWEDDAR, GYDAG ELW’R NOSON YN MYND AT APÊL FFYNHONNAU BYW.  DIOLCH I’R CYNGHORYDD JEAN LEWIS, MEIDRIM, AM DREFNU NOSON LWYDDIANNUS A CHYFLE DA I GYMDEITHASU.**





## PANED A SGWRS



**Bore Mercher - 10.30 - Gwesty’r Llwyn Iorwg**

**5 Mehefin 2024**

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

## CYRDDAU PREGETHU

### CANA

**Nos Fercher**
**8 Mai 2024 am 7**
***Swper i ddilyn***
**Pregethwr Gwadd**
**Y Parchedig**
**Siân Elin Thomas**



### BANCYFELIN



**Nos Iau**
**16 Mai 2024 am 7**
***Swper i ddilyn***
**Pregethwr Gwadd**
**Y Bonwr**
**Dewi Lewis**
**Clydach**

## TE PRYNHAWN YN HEOL AWST

**Prynhawn Mawrth**
**21 Mai 2024 – 2.00**
**Adloniant gan Bet Jones a Heather Williams**
**Croeso i bawb**





## DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn,Carys Morgans, Betsan James am y lluniau'r mis hwn

## GAIR O DDIOLCH

**Diolch yn fawr iawn i bawb yn y Priordy a fu mor garedig â fy noddi ar gyfer Marathon Llundain. Llwyddais i godi dros £1700 at Elusen Alzheimer's er cof am Mam-gu a Thad-cu. Diolch yn fawr i bawb.**

**Elin Wyn James**

# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR

**Mai / Mehefin**

Gwynfor a Janet Davies
Adrian a Gloria Evans   Dennis a Rhian Jones

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Mai | | Mehefin | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Elis Jones | | **Gareth Gravell** | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mai** | **5** | | **Mehefin** | **2** | |
| | **12** | Rhian Jones | | **9** | June Thomas |
| | **19** | | | **16** | |
| | **26** | Nia Lewis | | **23** | Pererindod |
| | | | | **30** | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mai** | **5** | **Bore** | Eirlys Davies a Margaret Lloyd Evans |
| **Mehefin** | **2** | **Bore** | Betsan James a Rachel Davies |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mai** | **5** | Eirlys Davies | **Mehefin** | **2** | Delyth Gwawr Davies |
| | **12** | Y Plant | | **9** | Alison Parsons |
| | **19** | Tim Hayes | | **16** | Y Tadau |
| | **26** | Angharad Wyn | | **23** | Pererindod |
| | | | | **30** | Heol Awst |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mai** | Jayne Woods | **Mehefin** | Adrian Evans |

## NATALIE MORGAN YN MWYNHAU GYDA PHLANT YR YSGOL SUL





### PANED A CHÂN AC OEDFA



**Cynhaliwyd sesiwn Paned a Chân ar gyfer trigolion Plas-y-dderwen a Dol-y-Felin yn Festri Cana ar brynhawn Mercher 1 MaI 2024. Diolch i'n Gweinidog am drefnu. Hefyd bu'n Gweinidog yn cynnal oedfa yng Nghartref Gofal Erw Hir ar brynhawn Dydd Gwener 3 Mai 2024.**



*EIN* cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am Gwynn Bowyer, Emyr Thomas, Greta Gwyn Jones a Rita Brown (sydd wedi cwympo a thorri'i chlun). Dymunwn yn dda i Fiona Elias ar ôl y digwyddiad yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman. Cofion cynnes atoch i gyd.



Bu Beti-Wyn ar Ddydd Gwener y Groglith ar Bore Cothi ar BBC Radio Cymru yn sôn am wahanol draddodiadau'r Pasg o gwmpas y byd, heb anghofio Cymru a'n bro lleol ni.

Bu Dr Llinos Roberts yn pori drwy'r papurau ar Bore Sul ar BBC Radio Cymru. Prif westai'r rhaglen y bore hwnnw oedd Y Parchedig Beti-Wyn yn sôn am bennod newydd yng Nghaerfyrddin a'r cylch – pum eglwys yn dod at ei gilydd a gofalaeth newydd yn cael ei sefydlu, Gorsedd yr Eisteddfod Genedlaethol a'i magwraeth yng Nghwm Tawe a Hebron, Clydach. Cawsom ein hannog i ddal ati i gynnal cymdeithas yr eglwys a chadw fflam Cristnogaeth ynghynn. Ei dewis o gân oedd Y Cwm gan Huw Chiswell.

Cafodd Beti-Wyn gyfle i sôn am y noson a gynhaliwyd yn y Priordy yng nghwmni Lleuwen Steffan ar Newyddion ITV.

Gwasanaeth Iechyd heb feddygon teulu oedd pwnc trafod Dr Llinos ar Newyddion S4C un noson – meddygfeydd yn cau, a llai o feddygon teulu, asgwrn cefn y gwasanaeth iechyd, yn dymuno bod yn bartneriaid a chynnal meddygfeydd lleol. Bu Dr Llinos ar Radio Cymru hefyd yn trafod y cyswllt rhwng gwallt a'n hiechyd gyda Catrin Heledd.

Bu Elinor Wyn Reynolds ar Dros Ginio ar Radio Cymru yn trafod apiau sy'n crynhoi cynnwys llyfrau gyda Jennifer Jones – y manteision a'r pryderon. Nid bod dynol sy'n gwneud y crynhoi hwn, gyda llaw, ond peiriant!

Clywyd Menna Elfyn ar Dros Frecwast ar Radio Cymru yn sôn am gynhadleth On the Move yr oedd yn rhan ohoni ac a gafodd ei chynnal yn y Galeri, Caernarfon. Mae On the Move yn hyrwyddo a chefnogi artistiaid a'r byd celfyddydol i weithredu'n rhyngwladol.
Cafodd "Cerddwn Ymlaen', sef clwb cerdded meibion Caerfyrddin a'r ardal, gwmni rhaglen Prynhawn Da S4C ar ddechrau eu cylchdaith yn ardal Cenarth a Chastellnewydd Emlyn yn ddiweddar. Cafodd Huw Michael a rhai

o'r aelodau eraill gyfle i roi ychydig bach o hanes y clwb dros y degawd ers iddynt ddechrau cerdded. Holwyd pam roedd yr aelodau'n mwynhau cerdded, a beth oedd y manteision iechyd. Ymhlith yr atebion soniwyd am y gwmnïaeth ffraeth, dod i nabod gwahanol ardaloedd yng Ngorllewin Cymru, a'r ymarfer corff, heb anghofio am bryd bwyd blasus ar ddiwedd pob taith!

Pob dymuniad da i'n Trysorydd, Adrian Evans, sy'n dathlu pen-blwydd arbennig y mis hwn – ffigur crwn! Da gweld hefyd fod Adrian wedi gwella erbyn hyn.

Llongyfarchiadau mawr i Gladwen Meredith sydd wrth ei bodd ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf! Ganed Harri ar 29 Mawrth 2024 i Becky a Mathew, Casnewydd. Pob bendith arnynt a hefyd ar 'Nain Fach' Meredith fel y'i gelwir gan y teulu!





*LLONGYFARCHIADAU* mawr hefyd i Huw a Carys Edwards ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed Nel Llewelyn i Lowri a Meirion a chwaer fach i Noa ar 14 Ebrill 2024. Ein dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mehefin i'n
Gweinidog neu Alun Charles

## CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gareth Gravell ar golli'i lysfam yn ddiweddar, sef Margaret Thelma Gravell, Penygroes a chynt o Gydweli. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu colled.

Cydymdeimlwn â Peter a Meinir Hughes Griffiths ar golli dau gefnder i Peter o fewn pythefnos i'w gilydd, sef Alun Williams ar 20 Mawrth ac Arwyn Williams ar 27 Mawrth, dau frawd a oedd yn byw yn Llanymddyfri. Roeddent yn gefndryd i Peter ar ochr y fam ac, ar ochr y tad, i Jeff Williams, Llywydd presennol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Thelma Evans a Jane Woods ar golli brawd Thelma ac ewythr Jane, sef David Leslie Davies, Hendy-gwyn ar Daf ar 9 Ebrill 2024. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu profedigaeth.

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mai** | **5** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **12** | ***Bore*** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| ***Sulgwyn*** | **19** | ***Bore*** | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | |
| | **26** | ***Bore*** | Y Parchedig Owain Llyr Evans | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mehefin** | **2** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **9** | ***Bore*** | Gwasanaeth Dinesig gyda'n Gweinidog, Caplan y Maer, Y Cynghorydd Emlyn Schiavone | |
| ***Sul y Tadau*** | **16** | ***Bore*** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| | **23** | | Pererindod yr Ofalaeth | |
| | **30** | ***Bore*** | Oedfa Undebol yn Heol Awst gydag Annalyn Davies | |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant**
**OD – Oedfa Deulu EW- Erw Hir**

| **Mai** | | | | **Mehefin** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5** | **12** | **19** | **26** | **2** | **9** | **16** | **23** | **30** |
| ✓ | **CP** | ✓ | **-** | ✓ | ✓ | **OD** | **-** | **EH** |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

